Ebrill 29 2018

Mae cwrdd bore 'ma yn nwylo Huw Roberts a'r Parchg. Gethin Rhys. Eleri Huws sy'n cyfeilio.

Y Suliau nesaf.....

Mai 6ed - Sul Pentref gydag aelodau Meisgyn a Groesfaen gydag Eleri Huws yn cyfeilio

Mai 13eg – Sul Cymorth Cristnogol gyda Sian Elin yn cyfeilio

Mai 20fed – Oedfa i'r teulu gydag Elen George yn cyfeilio

Mai 27ain – Eirian, gyda Ann Rees, a Sian Elin yn cyfeilio

Mehefin 3ydd – Cymundeb, gydag aelodau Llantrisant, Llanharan ac unrhyw Lan arall hoffai gyfrannu.....

Dathliadau 150 y Tabernacl

I ddathlu 150 mlynedd ers codi Capel y Tabernacl gobeithiwn lwyfannu sioe yn olrhain hanes yr achos. Er bod dros ddwy flynedd yn weddill cyn cynnal y dathliadau bydd gofyn dechrau ar y paratoadau cychwynnol am y sioe yn fuan. Estynnir gwahoddiad i unrhyw un sydd â diddordeb i gynorthwyo llunio sgript, cyfansoddi caneuon ynghyd â threfnu i lwyfannu'r perfformiad i gysylltu gydag un o aelodau'r Bwrdd.

Mae etholiad am swyddogion newydd i enwad yr Annibynwyr Cymraeg. Mae ebost wedi ei ddanfon at aelodau'r capel ac mae copi papur yn y blaen i'r rhai heb ebost.

NEWID DYDDIAD

Estron –Theatr Genedlaethol Cymru, nawr Nos Wener Mai 18, 7.30pm

CYFAMOD EGLWYSIG Y TABERNACL

'Rydym yn gymuned o bobl sydd wedi ymrwymo yn wirfoddol i geisio tyfu gyda'n gilydd mewn dealltwriaeth a gallu i ymarfer dysgeidiaeth ac ysbryd yr Iesu.'

SESIWN EFAIL ISAF NESAF yn y Carpenters, Mehefin 9ed am 8 o'r gloch

Dymunwn yn dda i Ann Rees sy'n gwella wedi derbyn pen-glin newydd ddydd Iau.

WYTHNOS CYMORTH. CRISTNOGOL

Mai 13-19 ydy dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni. Byddai John Llewelyn Thomas yn falch o glywed yn fuan gan unrhyw un sy'n fodlon helpu gyda'r casglu o ddrws i ddrws yn Efail Isaf. Mae criw da yn gwirfoddoli fel arfer.

Os ydych chi ar gael, mynnwch air â John, ffoniwch 01443 218077, neu ebostiwch johnllewt@hotmail.com Diolch yn fawr.

Merched y Tabernacl

Bore dydd Iau Mehefin 10fed

Cwrdd am 10.30 yng

Nghanolfan Arddio Caerffili

Bwrdd y Cyfarwyddwyr

Cynhelir cyfarfod nesaf y Bwrdd am 7.30 nos Fawrth 1 Mai. Os oes gennych adroddiad i'w gyflwyno neu fater yr hoffech ei godi yn y cyfarfod yna cysylltwch gyda Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) erbyn nos Llun 30 Ebrill fan bellaf.

Madagasgar 1818-2018

Ar nos Wener 8fed o Fehefin bydd sioe i ddathlu hanes y cenhadon cynnar ar fferm Pen-rhiw – sef cartref David Jones, un o'r ddau genhadwr cyntaf – a bydd Oedfa Ddathlu ar y pnawn Sadwrn a chyngerdd i gyflwyno doniau Cymru a Madagasgar ar y nos Sadwrn. Os oes unrhyw un awydd archebu tocynnau ar gyfer y sioe, a seddau cadw ar y bws wennol o Aberaeron i'r perfformiad cysylltwch gyda Gwilym Huws (gehpengwern@yahoo.co.uk / 01443 225205) am ffurflen archebu.

Mae'r daflen wythnosol dan ofal Sylvia Davies, Nia Williams a Geraint Rees. Os oes gennych faterion i'r daflen danfonwch nhw at geraintrees@hotmail.com

Os hoffech ddefnyddio'r ganolfan neu'r capel, ebostiwch carolinerees2@hotmail.com

Mae gwybodaeth reolaidd am y capel ar www.tabernacl.org

Mae llwyth o bethau amrywiol a doeth ar www.cristnogaeth21.cymru